CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 17eg o EBRILL 2023** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Non W. Parry - Cadeirydd

Cyng. Terry Jones
Cyng. John Lee
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. Henry D. Jones
Cyng. Eleri Ll. Burns
Cyng. Richard Parry
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Christine Roberts
Cyng. Margaret Ann Thomas
Cyng. Ieuan G. Davies

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Geraint Bebb
Dylan W. Rees
Paul Ellis
Heddlu : PCSO C2593 Alison Williams
Asiant **:** Mr. Gwyn Hughes (Y Fynwent Newydd-Tir Penlan)
Clerc **:** H. Rhys Parry
Cymhorthydd **:** Ms.Linda Powell

Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn benodol ynglŷn â'r diddordeb yn Barc Sglefrio, PA.
Cyfarfod yn cael ei Recordio

23/001 Ymddiheuriadau : Cyng. Arwel Môn Hughes
Cynghorydd Sir – Non Dafydd

Parc Sglefrio, Plas Arthur : Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Cyfeiriwyd gan y cyhoedd eu siom nad oedd Cyfieithydd ar gael yn y Cyfarfod heno. Eglurodd y Cadeirydd nad oedd rhybudd digonol, na chais swyddogol, wedi ei gyfeirio ato mewn e-bost gan Aelod o'r cyhoedd, Nos Sul 16.04.2023. Cytunodd y Cadeirydd i gynnal unrhyw drafodaeth gyda'r cyhoedd yn Saesneg.
Mewnbwn gan y cyhoedd, ei fod yn fater pwysig iawn i bobl ifanc y dref fod y Parc yn parhau yn ei wasanaeth presennol ac yn ased enfawr i'r Gymuned. Eglurodd y Cadeirydd fod y Cyngor Tref yn ystyried dyfodol y Parc Sglefrio fel mater pwysig iawn ac wedi penderfynu trefnu cyfarfod penodol arbennig i symud ymlaen ar hyn. Cadeirydd yn cadarnhau na fydd y mater yn ymwneud a'r Gwarantwr yn cael ei drafod heno, a bod hyn i'w drafod yn y Cyfarfod Arbennig.

Cadeirydd yn diolch i'r cyhoedd am eu mewnbwn a diddordeb - Cyhoedd yn gadael y Cyfarfod
Un Aelod o'r cyhoedd yn aros am weddill y Cyfarfod.

23/002 Datganiad o Ddiddordeb : Cyng. Dylan W. Rees – Eitem 23/010.1
Parc Sglefrio – Cadeirydd y Prosiect

23/003 Cyflwyniad : Y Fynwent : Mr. Gwyn Hughes, Asiant : Mr. Hughes yn adrodd bu trafodaeth hir yn ystod Cyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 27.03.2023, ar sut i symud ymlaen gyda gosodiad y Fynwent Newydd. Yn dilyn astudiaeth i asesu dyfnder y pridd ar y safle, bu'r Cwmni gynghori fod yn anaddas i feddau cael eu hagor lle mae craig yn agos i'r wyneb. Yr Asiant yn arwain yr Aelodau trwy'r opsiynau ar gyfer lleoliad y Maes Parcio ac yn esbonio fod y llecyn ochor yn ochor a'r briffordd B5111 gyda digon o ddyfnder ar gyfer beddau

PARHAD 23/003

i ddau. Asiant yn rhannu bras gynllun gyda'r Aelodau yn mapio allan edrychiad y Fynwent wrth ddefnyddio rhan ganol y safle ar gyfer Maes Parcio, sef lle mae craig yn agos i'r wyneb. Yn dilyn trafodaeth fer, yr Asiant yn cadarnhau ei fod yn cynghori i symud ymlaen gydag ail gynnig yr Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae, i leoli'r Maes Parcio hanner ffordd yng nghanol y cae ar yr ardal greigiog Cadeirydd yn gofyn am bleidlais ar y cynnig uchod. 11 pleidlais i symud ymlaen ar hyn ac un Aelod yn atal pleidlais. **PENDERFYNWYD** bydd Maes Parcio'r Fynwent Newydd yn cael ei leoli yng nghanol y cae a gofyn i'r Asiant weithredu ar hyn, fel y cam cyntaf, drwy gyflwyno'r Cais Cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn.

Cadeirydd yn diolch i'r Asiant am ei Adroddiad - Mr. Gwyn Hughes yn gadael y Cyfarfod

23/004 Heddlu Gogledd Cymru : Cadeirydd yn croesawu PCSO Alison Williams i'r Cyfarfod ac yn adrodd fel a ganlyn :

1 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol : Tynnwyd sylw at ddifrod yn ddiweddar yn Y Dingle, PCSO yn adrodd fod yn anodd patrolio'r safle i gyd oherwydd bod gymaint o guddfannau i'r troseddwyr. Heddlu yn ymwybodol o'r uchod ac yn awgrymu'r posibilrwydd o osod camerâu o gwmpas y Dingle. Cyng. Richard Parry yn tynnu sylw fod rhai o'r llwybrau pren ddim mewn cyflwr da. **PENDERFYNWYD** anfon e-bost at Gyngor Sir Ynys Môn yn tynnu sylw at hyn.

2 Troseddau : Cyng. Eleri Ll. Burns yn trafod gyda'r PCSO Prosiectau gwaith gweithgareddau cymunedol ar gyfer plant/pobl ifanc. Swyddog yn ymwybodol o hyn ac yn y broses o gyfathrebu gydag ysgolion, Club Ieuenctid a Grwpiau Cymunedol i godi ymwybyddiaeth ar sut i leihau trosedd yn y gymuned.

3 Wi-Fi : Trafferthion yn cychwyn eto gyda phobl ifanc yn casglu o gwmpas Archfarchnad ASDA i gysylltu i'r Wi-Fi. Trafodwyd edrych ar gael "Hotspot" yng nghanol y dref ar gyfer Wi-fi, Cyng. Christine Roberts yn datgan fod Mudiad Menter Môn yn edrych ar hyn. Awgrymwyd cyd-weithio gyda Grŵp Adfywio Llangefni i geisio symud ymlaen ar hyn.

4 Maes Parcio ger Fflatiau Glan Cefni : Cadeirydd yn tynnu sylw'r Swyddog Heddlu fod cwynion wedi eu derbyn gan drigolion bod ceir, ac yn enwedig beiciau modur yn cadw sŵn o gwmpas y maes parcio yn ystod y nosweithiau. Heddlu am gadw llygaid ar y safle.

Cadeirydd yn diolch I PCSO Alison Williams am ei mewnbwn – Swyddog yn gadael y Cyfarfod.

23/005 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 13.03.2023 :

Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Margaret Ann Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

23/006 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 13.03.2023

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

23/007 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 27.03.2023

Cadeirydd yn rhoi gwybod fod cywirdeb i'r Cofnodion uchod, sef Eitem 22/257.2 : Parc Sglefrio, dylid darllen ….."Cytundeb a arwyddwyd yn ôl yn 2017".. ac nid yn 2018 fel y cofnodwyd. Yn dilyn y cywirdeb uchod, Cyng. Eleri Ll. Burns yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

Eitem 22/257 - Llythyr Menter Cymdeithasol Llangefni 02.02.2023 : Llythyr wedi ei rannu gyda'r Aelodau ar gychwyn y Cyfarfod. Cyng. J. Egryn Lewis yn rhoi gwybod o'i wrthwynebiad fod y llythyr uchod wedi ei gasglu yn ôl ar ddiwedd y Cyfarfod gan fod dim byd sensitif yn gynnwys y llythyr. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

23/008 Cynllunio

1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 28.03.2023 :
Cais FPL/2023/67. Cofnod wedi ei dderbyn – er gwybodaeth ;

2 Cais FPL/2023/41. Cais wedi ei dynnu'n ôl.
PENDERFYNWYD derbyn yr uchod.

23/009 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer

1 21.03.2023 - Ymweliad a Meithrinfa Sêr Bach : Maer wedi cael croeso cynnes ac wedi treulio bore gyda'r plant bach a'r staff;

2 17.04.2023 - Agoriad Swyddogol Siop Elusen Hosbis Dewi Sant : Maer a'r Dirprwy Faer wedi cael croeso cynnes ac yn gefnogol o waith da Hosbis Dewi Sant;

3 20.04.2023 - Agoriad Swyddogol "Caffi Bach Y Bocs", Oriel Môn : Maer a'r Clerc yn bresennol;

4 31.03.2023 - YSGOL CORN HIR - Diwrnod Agored : Maer wedi mwynhau'r profiad o fynd o gwmpas yr ysgol newydd ac yn llawn canmoliaeth at yr offer technoleg ddiweddaraf a.y.b.

23/010 Materion yn codi gan Aelodau :

1 Cyng. John Lee : Parc Sglefrio : Wedi derbyn eglurhad ar gychwyn y Cyfarfod. Dim trafodaeth bellach.

2 Cyng. Terry Jones : Arwyddion Ffordd : Yn dilyn agoriad Ysgol Corn Hir, Cyng. Jones yn datgan pryder bydd y "footfall" yn cynyddu o gwmpas y briffordd B4422 yn Rhostrehwfa. Ar hyn o bryd mae rhan o'r ffordd yn nesáu at gyffordd y B5109, o dan reolaeth 30m.y.a., er hyn mae nifer o yrwyr yn anwybyddu'r arwyddion cyflymdra. Cais Cyng. Jones ydyw i gael gosod arwyddion yn yr ardal yma sydd yn goleuo i fynnu, fflachio, dangos cyflymder ac yn arddangos "Arafwch", er mwyn diogelwch y gymuned. Aelodau a'r Cynghorwyr Sir yn gefnogol o'r uchod. Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw fod arwyddion 30m.y.a. ar y briffordd B5109 yn agos i fynedfa Ysgol Corn Hir, a dylid cael eu ail gosod ymhellach yn ôl.
PENDERFYNWYD ysgrifennu at Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn, yn unol â'r uchod.

23/011 Adroddiad y Clerc :
Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 Y Fynwent, Lon Newydd : Yn dilyn argymhelliad yng nghyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 27.03.2023, i dderbyn tri phris am y gwaith paratoi'r safle ar gyfer beddau ychwanegol, Cyng. Victor Hughes wedi paratoi cynllun tendr. Cytunwyd i anfon y ddogfen tendr allan i Gontractwyr ar gyfer cychwyn y gwaith. Cyng. J. Egryn Lewis yn holi am fodolaeth Rhestr o enwau Contractwyr i'w defnyddio ynghyd a Pholisi Rhestr Contractwyr y Cyngor Tref. Cyng. Lewis yn awyddus i'r Aelodau fod yn ymwybodol o enwau'r Contractwyr fydd yn cyflwyno pris. **Derbyn**

2 Y Farchnad : Aelodau yn ymwybodol ni fydd Menter Cymdeithasol Llangefni yn adnewyddu trwydded y Farchnad mis Mawrth eleni. Y Clerc yn adrodd fod y Cyngor Tref wedi cael cyfle i ystyried rhedeg y Farchnad, ond yn y cyfamser bu Swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn gysylltu yn datgan fod Stondinwr sefydlog yn awyddus i fynd ymlaen i gymryd drosodd rhedeg y Farchnad. Aelodau yn gefnogol o'r cais yma ac yn falch o weld bydd y Farchnad yn parhau yn y Dref. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

3 Cyngor Sir Ynys Môn - Newyddlen y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Thref a Chymuned & Newyddlen Cwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor Safonau - 30.03.2023 : Aelodau wedi cael cyfle o flaen y Cyfarfod i edrych trwy'r wybodaeth uchod. Clerc yn pwysleisio i'r Cynghorwyr i roi mwy o sylw i'r Cyrsiau Hyfforddiant sydd ar gael a hefyd i'r staff fynychu cyrsiau. Clerc yn tynnu sylw fod yn bwysig cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a bod

PARHAD 23/011

adnoddau ar gael yn y Llys i bawb gael at ei gilydd i gyflawni'r hyfforddiant. Cyng. Lewis yn cynnig anfon gwahoddiad i Gynghorau eraill ddefnyddio'r cyfleusterau yn y Llys. Yn dilyn hyn Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw nid oes gan bawb chyfleusterau i fynychu Cyfarfodydd Ar-lein o adref, a dylid Cyngor Sir Ynys Môn ystyried sefydlu linc neu Hwb cymunedol i gyfleustra pawb. Dim trafodaeth bellach.

4 **Cynllun Hyfforddiant :** Yn y broses o gael eu paratoi yn y Swyddfa yn barôl i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir erbyn 31 Mai 2023, yn unol â'r e-bost uchod. **Derbyn**

23/012 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :

1 **Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref Chymuned – Cofnodion 27.02.2023 –** Wedi ei rhannu gyda'r Aelodau – er gwybodaeth. **Derbyn**

2 **YSGOL CORN HIR - Diwrnod Agored 31.03.2023 -** Rhai Aelodau wedi ymweld â'r Ysgol.

23/013 Cyllid :

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mawrth 2023 :**

Cadeirydd yn datgan fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i gael golwg trwy Anfonebau Mis Mawrth 2023. Yn codi o'r Fantolen Ariannol, bu cydnabyddiaeth mai Cwmni lleol oedd wedi gwasanaethu boeler gwresogi'r Llys. Tynnwyd sylw gan Cyng. Egryn Lewis fod angen edrych yn fwy manwl ar reolaeth tymheredd y radiators oherwydd y cynyddiad mewn costau ynni ac i arbed arian. Clerc yn ymwybodol o hyn ac wedi cael gosod dau radiator ynni effeithlon yn yr Ystafell Cyfarfodydd. **Derbyn**

Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu edrych i mewn i baneli solar ac os oes grantiau ar gael ar gyfer hyn. Dim trafodaeth bellach.

Cyng. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod taliadau Cyflogaeth wedi mynd i fynnu yn Mis Mawrth. Clerc yn esbonio fod hyn oherwydd cymorth allanol ar gyfer gwaith ychwanegol i baratoi Cais Cynllun Busnes a Chais Grant.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Mawrth 2023.

23/014 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

Cynghorydd Sir, Dylan W. Rees, Geraint Bebb a Paul Ellis yn adrodd ar y canlynol :

- Agoriad Ysgol Corn Hir – Adeilad anhygoel a phawb wedi mwynhau'r Diwrnod Agored;
- Ymgynghoriad Newydd ar ddyfodol addysg yn cychwyn 31.03.2023;
- Gwrthodwyd Cais i leoli 34 caban gwyliau ar safle Dafarn Newydd, Lon Penmynydd - trigolion yn ddiolchgar i'r Cyngor Tref am wrthwynebu'r Cais;
- Sgriwtini - Strategaeth Cyngor Sir Ynys Mon i wella canol y trefi ;
- Agor Caffi Newydd yn Oriel Mon;
- Cais Porthladd Rhydd yn llwyddiannus gyda Swyddogion y Cyngor Sir a Stenna yn cyd-weithio ar hyn;

Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorydd am eu mewnbwn

23/015 Gohebiaeth a Materion Newydd :

1 **Cyfraniadau 2022-2023 – Llythyrau o ddiolch wedi eu derbyn gan :**

Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023; Dawns i Bawb; Cerebral Palsy Cymru; Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

23/016 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :

Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Mawrth 2023 :

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**

2 **Materion Eraill - Derbyn.**

PARHAD 23/016

23/017 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :

1 Cais i Godi Trwydded 142 ar gyfer ardal y Cyngor Tref : Clerc yn cadarnhau fod y Drwydded mewn trefn ac yn cyfathrebu gyda'r Cwmni Yswiriant i dderbyn costau. **Derbyn**

2 Cais Menter Cymdeithasol Llangefni - Parc Sglefrio : Cyng. Victor Hughes yn awyddus i drefnu dyddiad i gynnal Cyfarfod Arbennig, mor fuan ag y bo modd, i drafod oblygiadau'r cais uchod. Mewnbwn gan yr Aelodau gyda phwyntiau i'w trafod :

- A ddylid y Cyfarfod fod yn gyhoeddus ac yn agored i'r cyhoedd ?
- Deall cyd-destun yr oblygiadau cyn symud ymlaen;
- Edrych ar y canllawiau cyfreithiol;
- Dylid y Fenter Gymdeithasol fod wedi dŵad a'r mater yma i sylw'r Cyngor Tref yn gynt o lawer fel bod cyfle i baratoi'r gyllideb .

Dim trafodaeth bellach.

23/018 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :

1 Cyfarfod Blynyddol 15.05.2023
2 Cyfarfod Llawn 22.05.2023

CYNG. NON W. PARRY

CADEIRYDD